Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Lansio Gwobrau *Rhwydwaith Cymru* eleni

Lansiwyd Gwobrau Rhwydwaith Cymru, a gefnogir gan Class Telecommunications, i ddangos gwaith y trydydd sector a rhoi cydnabyddiaeth genedlaethol am lwyddiannau eithriadol.

Gall unigolion enwebu eu mudiad eu hunain am wobr a gallant hefyd enwebu mudiadau eraill mewn categorïau ar wahân.

Eleni, mae WCVA wedi ychwanegu categori newydd i'r tri sydd eisoes yn bodoli. Gallwch enwebu mudiadau sydd wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'u cynrychiolwyr wrth gyd-lunio gwasanaethau, ac wedi cael ffyrdd newydd, buddiol o feddwl a gweithredu yn y sector iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

Dyma'r categorïau:

- Gwobr Class ar gyfer y cyfathrebu gorau
- Y Wobr werdd
- Iechyd, gofal cymdeithasol a lles
- Y mudiad a edmygir fwyaf

Bydd pob mudiad a enwebir yn cael tystysgrif o ganmoliaeth a chyflwynir gwobr i'r enillwyr yng nghinio cynhadledd flynyddol WCVA ym mis Rhagfyr.

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 21 Hydref 2010. I dderbyn ffurflen enwebu cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu ewch i www.wcva.org.uk.

Cynhadledd ar gyllido yn addo gwybodaeth a chyngor

A ydych yn poeni o ble mae'ch arian yn mynd i ddod? Wel, nid ydych ar eich pen eich hun, ond mae help ar gael. Gwnewch nodyn o 12 Hydref yn eich dyddiadur – dyna ddyddiad Cynhadledd WCVA ar Gyllido'r Trydydd Sector yn Venue Cymru yn Llandudno.

Bydd cyfle yno i glywed yr hyn sydd gan gyllidwyr i'w ddweud, cewch gyngor ar gyllido gan arbenigwyr a bydd cyfle i ddysgu rhai o gyfrinachau codi arian. Bydd cyfle hefyd i wrando ar siaradwyr ysbrydoledig, i fynychu amrywiaeth enfawr o weithdai a bydd stondinau lu i'ch diddanu – a bydd y cyfan yn gyfle gwych i rwydweithio.

Mae sesiynau llawn y bore'n cynnwys Jane Hutt, AC ac yn dilyn hyn, bydd Joe Saxton o nfp Synergy yn egluro sut y gall elusennau barhau'n gystadleuol mewn byd cythryblus.

Bydd uchafbwyntiau'r prynhawn yn cynnwys anerchiad gan Derek Walker o Gronfa'r Loteri Fawr a Liz Liscomb o Sefydliad. Hefyd, bydd Mervi Slade o Roi Elusennol yn egluro sut y gall eich grŵp wneud y gorau o roi drwy'r gyflogres.

Bydd nifer o weithdai wedi'u trefnu hefyd a fydd yn edrych ar brif elfennau strategaeth rhoi cynaliadwy. Bydd Alan Eagle o Sefydliad Santander UK yn cynnig cyngor ar sut i 'osgoi'r bin', bydd cynrychiolwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Gorllewin Morgannwg yn sôn am ennill tendrau a bydd Martin Rhisiart, o Brifysgol Morgannwg, ac Eva Trier, o CM International, yn trafod buddiannau cynllunio ar gyfer sefyllfaoedd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.wcva.org.uk neu ffoniwch Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

WCVA yn dweud 'na' wrth unrhyw ostyngiad yn arian y loteri yng Nghymru

Mae WCVA wedi dweud nad yw'n cefnogi unrhyw newid sy'n lleihau cyfran gyffredinol arian y Loteri y mae'r pedwar dosbarthwr yn ei dderbyn i'w wario yng Nghymru, neu sy'n lleihau'r arian cyffredinol sydd ar gael i'r trydydd sector.

Mae WCVA wedi ymateb i ymgynghoriad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch ei chynlluniau i ostwng y dyraniad i'r Gronfa Loteri Fawr o 50% i 40%, ac i ailddyrannu hyn i'r dosbarthwyr arian loteri ym maes chwaraeon, celfyddydau a threftadaeth.

Yn wahanol i ddosbarthwyr eraill, mae cyfran y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer Cymru yn ystyried anghenion cymdeithasol. Os symudir yr arian o'r Gronfa Loteri Fawr at ddosbarthwyr eraill heb addasu ar gyfer yr anghenion cymdeithasol, gallai Cymru fod ar ei cholled o rhwng £5m a £6m. Wrth ymateb, mae WCVA wedi ceisio sicrwydd na fydd arian cyffredinol y Loteri yng Nghymru yn lleihau o ganlyniad i unrhyw newid.

Mae'r ymateb hefyd yn ceisio sicrwydd na fydd gostyngiad yn y cyllid ar gyfer y trydydd sector. Mae'n dangos mai'r Gronfa Loteri Fawr yw'r prif gyllidwr trydydd sector ar gyfer y trydydd sector, a bydd unrhyw ostyngiad yn ei ddyraniad yn achosi pryder i amrywiaeth eang iawn o fudiadau.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo cydlyniant cymunedol, ac mae unrhyw ostyngiad yn debygol o gael effaith andwyol ar fudiadau sy'n gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb a gwella cyfiawnder cymdeithasol. Yn yr ymateb, dadleuir os bydd y llywodraeth yn trosglwyddo arian o'r Gronfa Loteri Fawr i'r dosbarthwyr eraill, yna dylent orfod defnyddio o leiaf y symiau a drosglwyddwyd ar brosiectau trydydd sector dan arweiniad y gymuned, ac ar ddim byd arall.

Mewn datblygiad cysylltiedig, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyhoeddi ymgynghoriad pellach ar newid yng nghyfeiriad polisi ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr gyda'r bwriad o newid cyfeiriad er mwyn cyfeirio ffrydiau cyllido yn y dyfodol at brosiectau sy'n cynorthwyo pobl a chymunedau lleol a wasanaethir gan y trydydd sector. Disgwylir y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn parhau i gyllido'r un mathau o brosiectau, ond y dylai'r cyllid ganolbwyntio'n benodol ar y trydydd sector. Byddwn yn cyflwyno'r dewisiadau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau hyn gerbron y sector cyn bo hir.

Mae'r ymgynghoriad llawn ar gael yn http://www.culture.gov.uk/consultations/7313.aspx. Bydd WCVA yn ymateb i hyn maes o law. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, cysylltwch â Michael Delahunty (mdelahunty@wcva.org.uk).

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.